

Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Rhiannon Davies (Tanyfron) a Bob Davies (Llanfair), y ddau yn derbyn gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Rydym yn eu cyflwyno hwy, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant oll yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau eraill – Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen sydd yng nghartref gofal Yr Hen Ddeondy yn Llanellwly. Cyflwynwn y ddwy i ofal yr Arglwydd gan hyderu eu bod yn profi grym ein gweddïau drostynt.

Gweu i blant y byd

Gwyddom fod nifer ohonoch wedi bod yn brysur dros yr haf yn gweu hetiau 'beanie' er mwyn eu rhoi mewn bocsys esgidiau gydag anrhegion eraill ar gyfer y cynllun *Operation Christmas Child*. Os nad ydych eisoes wedi gwneud trefniadau o ran eu casglu, byddai Elinor Owen neu Mair yn ddiolchgar o'u derbyn **erbyn Nos Sul nesaf, Tachwedd 10fed**, os gwelwch yn dda, er mwyn eu hanfon ymlaen i gael eu dosbarthu.



I ddod

- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** yng Nghapel Bethania, Rhuthun dydd Mercher, Tachwedd 13eg o 10.00 – 3.00.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele, nos Iau, Tachwedd 21ain. Pwyllgor Gwaith am 4.30, Gwaith yr Henaduriaeth a Throsglwyddo'r Llywyddiaeth i Mr Caerwyn Davies am 6.00.
- **GWASANAETH SEFYDLU Y PARCH. HYWEL EDWARDS** yn weinidog ar Ofalaeth Ardal Thomas Charles nos Fercher, Tachwedd 27ain am 7.00 yng Nghapel Tegid, y Bala. Croeso i bawb.
- **NOSON ARBENNIG I LANSIO'R LLYFR "CAPEL CEFN MEIRIADOG DDOE A HEDDIW"** gan Mr Meurig Owen yng Nghefn Meriadog Nos Iau, Rhagfyr 5ed am 7.30. Bydd cyfle am sgwrs, paned a mins pei ar ôl. Croeso cynnes i bawb.
- **GWASANAETH CAROLAU I'R FRO** yn Llansannan nos Sul, Rhagfyr 15fed am 6.00.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 3^{ydd} Tachwedd 2013

Darlleniad y Dydd

1 Cronicl 16:7-14

(BCND tud.381 / BCN: tud.349)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Dyma ni yng nghanol cyfnod diolchgarwch! Diolchgarwch i Dduw yw bara beunyddiol y Cristion. Dyma a wnawn o'r galon yn aml yn ystod y dydd er na fyddwn yn gweddïo'n ffurfiol. Bydd gair o ddiolch bob hyn a hyn yn ein hatgoffa gymaint yw ein dyled i Dduw, a bydd cyfrif ein bendithion yn sicr o ddod a rhyw olwg well i ni ar y byd.

Mae'n bwysig i ni ffurfioli'n diolch ar adegau a diolch i Dduw mewn oedfa a chymun. Cydnabod Duw, rhoddwr a chynhaliwr bywyd a chanmol ei gariad tuag atom, dyna a wnawn yn yr oedfaon yma. A chariad Duw a ddatguddiwyd i ni yn Iesu Grist – ei fywyd a'i farwolaeth anfeidrol yn ein lle, a'i Arglwyddiaeth yn awr, yw testun ein mawl.

Does dim lle ar ôl ym mywyd y Cristion i ddathliadau'r hen baganiaeth fel *Halloween*. Mae'r Cristion yn dyheu am Dduw ei hun ac yn awyddus i ddiolch i Dduw ac addoli Iesu fel Arglwydd (Salm 42). Bellach, does dim pwrpas, na phleser chwaith wrth ddathlu'r hen gredoau am 'ysbrydion elfennig y cyfanfyd' (Colosiaid 2: 6-10). Ond dyma a wna cymaint erbyn hyn a'r masnachwyr ariangar yn gwthio'n galed yn y cefndir. Ond y mae pob pleser ysbrydol, pwrpas, llawenydd a bywyd yn eiddo i ni yng Nghrist wrth i ni ddyrchafu ei enw a diolch iddo am ein caru!

Felly, er mai un o'n harferion ysbrydol hawsaf ar sawl ystyr ydi rhoi diolch i Dduw, y mae'n arfer sy'n ein diogelu rhag cael ein tynnu i ffwrdd oddi wrth y gwirionedd amlwg yma, sef mai Duw yn unig sydd yn teilyngu'n diolchgarwch ac mai pechod yw'r canmol a diolch a roddir i bethau israddol. Cael ein gwaredu oddi wrth y pechod a'r oferedd yma a gawsom pan y daethom i weld gogoniant Crist a dod i'w garu ac nid oes dim lles ar ôl i ni na'n plant wrth ymhel ag arferion di-fudd.

Roedd Dafydd frenin yn byw ynghanol paganiaeth ei gyfnod ond fel un a oedd yn adnabod Duw roedd yn awyddus i godi addoliad 'mewn ysbryd a gwirionedd' i Dduw yng nghanol ei genedl. Yn y darlleniad cawn enghraifft o salm odidog wedi ei pharatoi ganddo i Asaff a'i gantorion a'i gerddorion ei chanu. Sylwch ar y geiriau cyntaf: "Diolchwch i'r Arglwydd. Galwch ar ei enw...." Gwnawn yn siŵr ein bod ninnau hefyd yn cyfeirio'n diolchgarwch a'n mawl i'r cyfeiriad iawn, sef at Dduw yn unig, at yr Arglwydd Iesu a hynny yn yr Ysbryd Glân ac mewn gwirionedd. Arglwydd ein Duw, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear!

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri a bydd Aneurin yn pregethu.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Adnabod Addoli** yn Festri Llansannan am 8.00.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Robin Fferwd, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a chynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch i'r teulu cyfan am 2.00 yng nghwmni Arawn Glyn. Bydd cyfle hefyd i roi rhoddion tuag at y Banc Bwyd, os gwelwch yn dda.
Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant am 10.00 a bydd Aneurin yn rhoi sgwrs i ddilyn. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Dydd Jangl. Dewch **erbyn 11.00** am baned, sgwrs a chân, ac yna cewch ginio fel arfer oddeutu 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Byddwn yn ymgynnull wrth y gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 10.50.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 a bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa yno am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Llun Cynhelir Cymdeithas y Chwirydd Cefn Berain am 7.00 pryd y byddwn yn croesawu Mrs Mair Williams, Tanyfron atom.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15, a bydd Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.